# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 2 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Mynediad i Fand Llydan

**C3 Alison Halford:** A oedd y sylwadau a wnaed gan swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru yn y Pwyllgor Materion Cymreig diwethaf yn gywir, sef bod gogledd Cymru yn cael ei gadael ar ôl o ran mynediad i fand-llydan ac yn debygol o ddioddef dirywiad economaidd o ganlyniad i hyn? (OAQ17113) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Yr wyf yn ymwybodol bod y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig wrthi'n ystyried a oes modd cael mynediad i'r seilwaith telegyfathrebu yng Nghymru, a hynny am bris rhesymol. Yr wyf hefyd yn ymwybodol bod Awdurdod Datblygu Cymru wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor hwnnw yn ddiweddar, a gympasai ystod o faterion perthnasol. Un o'r prif bynciau a drafodwyd oedd yr adroddiad dadansoddi a chynllun gweithredu, sy'n disgrifio ystod o weithgareddau, ynghyd â'u costau, y disgwylir y byddant yn hyrwyddo mynediad i delegyfathrebu am bris rhesymol yng Nghymru. Yr wyf yn disgwyl gwneud datganiad am y cynllun hwnnw cyn hir. Y prif reswm dros gomisiynu'r adroddiad oedd sicrhau bod pob rhan o Gymru'n gallu elwa yn economaidd ac yn gymdeithasol ar ddefnyddio'r seilwaith telegyfathrebu.

### Gwasanaethau'r Post

**C4 Brian Hancock:** A yw'r Gweinidog wedi trafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru barhad gwasanaethau post o ansawdd da ledled Cymru? (OAQ17117) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod ystod eang o faterion.

### 'Cymru'n Ennill'

**C8 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch 'Cymru'n Ennill' yn dilyn sylwadau a wnaed yn ystod cynhadledd ddiweddar Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghasnewydd? (OAQ17197)

**Andrew Davies:** Gwnaeth yr Athro Porter gyfraniad gwerthfawr iawn tuag at safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar 'Cymru'n Ennill' yng nghynhadledd y WDA/Prifysgol Morgannwg ar gystadlu yn y dyfodol, ar 3 Ebrill.

### Darpariaeth Technoleg Band Llydan

**C9 Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch darparu technoleg fand llydan i ganolfannau cymunedol yng Nghymru? (OAQ17121)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £10 miliwn dros dair blynedd er mwyn gosod rhwydweithiau band llydan lleol i ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Bydd y rhwydweithiau hyn yn cysylltu â rhwydwaith dysgu gydol oes Cymru a gafwyd yn ddiweddar. Gwnaf gyhoeddiad ar y cyd â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn yr wythnosau nesaf ynglŷn â'r ffordd y caiff yr arian am rwydweithiau lleol ei ddyrannu a'i ddefnyddio.

**Cyfraniadau Cyflogwyr i Yswiriant Gwladol**

**C10 Phil Williams:** Ym mha ffordd y bydd y cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr i'r yswiriant gwladol yn effeithio ar fusnesau yng Nghymru? (OAQ17198)

**Andrew Davies:** Yn ôl amcangyfrif y Trysorlys, £3.9 biliwn fydd cyfanswm cost cyfraniadau cyflogwyr y DU yn y flwyddyn nesaf. Nid yw ystadegau rhanbarthol y ffigur hwn ar gael. Serch hynny, gan mai rhyw 4 y cant yw rhan Cymru o gynnyrch mewnwladol crynswth y DU, mae'n debyg mai tua £150 miliwn yw cyfraniad cyflogwyr Cymru.

**Gêm Derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm**

**C11 Nick Bourne:** Pa asesu a fu ar fanteision economaidd cadw'r gêm derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm? (OAQ17157)

**Andrew Davies:** Mae Cyngor Sir Caerdydd wedi cynnal arolwg o effeithiau economaidd gemau pêl-droed mawr Cwpan y Gymdeithas Bêl-droed ac eraill a gynhelir yn Stadiwm y Mileniwm yn 2001. Dyna un o amodau'r cymorth a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i'r cyngor y flwyddyn honno. Cyflwynodd y cyngor ei adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad fis Chwefror, a chaiff hwnnw ei ystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch rhoi cymorth ychwanegol yn 2002.

Byddwn yn hapus pe ymgartrefai gêm derfynol Cwpan yr FA yng Nghymru yn barhaol, ond cyfrifoldeb y Gymdeithas Bêl-droed yw penderfynu lleoliad y gêm honno.

**Denu Mewnfuddsoddiad i Gymru**

**C12 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â swyddogion o Awdurdod Datblygu Cymru ynghylch denu mewnfuddsoddi i Gymru? (OAQ17107)

**Andrew Davies:** Yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â swyddogion y WDA i drafod amrediad eang o faterion sy'n effeithio ar economi Cymru, gan gynnwys mewnfuddsoddiad.

**Targedau Cyflogaeth**

**C13 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dargedau cyflogaeth mewn ardaloedd Amcan 1? (OAQ17194) [W]

**Andrew Davies:** Un o brif amcanion dogfen raglennu sengl Amcan 1 yw creu tua 43,500 o swyddi ychwanegol i'r rhanbarth. Nid yw'r ffigur hwn wedi ei rannu o fewn y rhanbarth.

**Credydau Treth Buddsoddi Mewn Cymunedau**

**C14 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gredydau treth buddsoddi mewn cymunedau? (OAQ17156)

**Andrew Davies:** Mae'r credyd treth buddsoddi mewn cymunedau yn cael ei glirio gan y Trysorlys drwy drefn cymorth y wladwriaeth, ac yr ydym yn disgwyl am y manylion terfynol. Yr ydym mewn cysylltiad agos â'r Trysorlys a'r Adran Masnach a Diwydiant ynglŷn â hwn, gan fwriadu i Gymru elwa i'r eithaf ar y manteision ar ôl i holl fanylion y cynllun gael eu pennu.

### Ffyniant Economaidd y Barri

**C15 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau ffyniant economaidd y Barri yn y dyfodol? (OAQ17130)

**Andrew Davies:** Disgrifir strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau ffyniant economaidd Cymru gyfan yn 'Cymru'n Ennill'.

O ran y Barri yn benodol, mae'r WDA wedi bod yn gweithio ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg i hybu adfywiad y Barri a'r cylch ers canol y 1990au.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Gweithdrefnau Cyfrifyddol

**C9 Cynog Dafis:** Pa drefniadau y bydd y Gweinidog yn eu gwneud i sicrhau tryloywder yng ngweithdrefnau cyfrifyddol y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ17186) [W]

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn yr egwyddorion cyfrifo a nodir yn 'Government Accounting' a'r 'Resource Accounting Manual'. Bydd y cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a bydd ef yn llunio adroddiad. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn i drafod canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### Cytundeb Mentrau Cyllid Preifat

**C10 Janet Ryder:** Pa ystyriaeth a roddir i gyfanswm arfaethedig y gost i'r pwrs cyhoeddus cyn llunio cytundeb menter cyllid preifat? (OAQ17174)

**Edwina Hart:** Mae angen i'r braslun o'r achos busnes ddangos y bydd y cynilion yn darparu gwerth am arian drwy gydol bywyd y cytundeb, drwy ddefnyddio cymharydd y sector cyhoeddus.

### Strategaethau'r Cynulliad

**C11 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba mor effeithiol y mae cyllideb y Cynulliad yn ariannu strategaethau'r Cynulliad? (OAQ17180)

**Edwina Hart:** A minnau'n Weinidog y Cabinet sy'n gyfrifol am gyllid, fy amcan yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng polisi, strategaeth ac adnoddau. Yr ydym wrthi'n adolygu ein blaenoriaethau buddsoddi a byddwn yn cyflwyno cynigion i ymgynghori arnynt at gylch 2002 y gyllideb.

### Theatrau Gogledd Cymru

**C12 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ystyried rhoi arian ychwanegol ar wahân o gyllideb y Cynulliad i adnewyddu theatrau'r Gogledd? (OAQ17170)

**Edwina Hart:** Mae ffynonellau arian eisoes ar gael at y perwyl hwnnw. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu grantiau'r loteri i gynorthwyo wrth adnewyddu theatrau ledled Cymru. O ran theatrau a reolir gan yr awdurdodau, hwy sydd i benderfynu ar y lefel briodol o fuddsoddi a sut i sicrhau'r arian ar eu cyfer.

## Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

**C13 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei thrafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol cyn cyhoeddi'r adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth San Steffan? (OAQ17128)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod pob mater ariannol sy'n ymwneud â Chymru, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag adolygiad o wariant Llywodraeth y DU.

## Adeilad Newydd y Cynulliad

**C14 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau'r flwyddyn nesaf i ailddechrau ar y gwaith o godi adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ17127)

**Edwina Hart:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i WAQ17219; gweler isod am gopi ohono.

Bydd y tîm rheoli prosiect aml-ddisgyblaeth newydd a fydd yn gyfrifol am ddarparu'r prosiect o fewn y gost, ar amser ac i safon yn cael ei benodi'n fuan. Hysbysebwyd am y comisiwn yn yr *Official Journal of the European Communities* yn Rhagfyr 2001, yn gwahodd diddordeb. Anfonwyd gwahoddiadau i dendro i'r cwmnïau ar y rhestr fer ar 1 Mawrth 2002 a chynhaliwyd cyfweliadau ar 18 Ebrill 2002. Un o dasgau cyntaf y tîm fydd cynorthwyo gyda phenodi contractwr datblygu ac adeiladu cyn diwedd y flwyddyn.

Ar ôl penodi'r tîm rheoli prosiect, bydd adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect yn ymddangos ar wefan adeilad y Cynulliad (www.cymru.gov.uk/adeiladcynulliad).

## Ariannu Canolfan Mileniwm Cymru

**C15 Alison Halford:** Sut fydd y Gweinidog yn newid cyllidebau'r Cynulliad er mwyn ystyried y papurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Diwylliant yn rhoi manylion ariannu Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ17123)

**Edwina Hart:** Ni fyddaf yn newid dim ar gyllidebau'r Cynulliad. Darparwyd cyfanswm o £37 miliwn o gyllideb ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru eisoes o ganlyniad i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr. Er hynny, mae amserlen y taliadau yn cael ei hadolygu yn sgîl y newidiadau yn y sefyllfa ariannol gan fod gwaith yn cael ei wneud ar y safle erbyn hyn, ac yr wyf yn cydweithio'n agos â'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar hyn.